TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NCFE CACHE Tystysgrif mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion Lefel 2




**Yn gryno**

Mae cymorth yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion yn hanfodol er mwyn helpu i blant gyrraedd eu potensial llawn - os yw gweithio mewn rôl gymorth yn apelio atoch chi, bydd y cwrs hwn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i chi.

Disgwylir i chi ennill profiad ymarferol drwy weithio mewn rolau sy'n cefnogi dysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd neu ysgolion Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ogystal â mewn colegau am o leiaf un diwrnod yr wythnos fel cyflogai neu wirfoddolwr.

Os ydych chi'n astudio'n rhan-amser, mae'n bwysig eich bod chi'n trefnu eich lleoliad gwaith cyn cofrestru. Os ydych chi'n astudio'n amser llawn, byddwn ni'n trefnu eich lleoliadau gwaith ar eich rhan.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un sydd eisiau gweithio gyda phlant mewn dosbarth.

...unrhyw un sydd eisiau bod yn gynorthwyydd ystafell ddosbarth neu'n gynorthwyydd cymorth dysgu

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs yn cydnabod y gwaith cymorth hanfodol a wneir mewn ysgolion a cholegau; ac fe'i cynlluniwyd yn gymorth i ysgogi cynnydd a throsglwyddo ar draws gweithlu'r plant mewn ysgolion a cholegau. Byddwch yn cwblhau 11 uned drwy gydol y flwyddyn, bydd rhai yn cael eu hasesu yn eich lleoliad ysgol/coleg a'r rhan fwyaf o unedau y byddwch yn eu cynhyrchu aseiniadau ysgrifenedig.

Mae'n datblygu gwybodaeth a fydd yn werthfawr i weithwyr gwirfoddol a gweithwyr sy'n cael eu talu, drwy astudio ystod o unedau sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant mewn ystafell ddosbarth. Caiff bob uned ei hasesu ar wahân drwy nifer o waliau asesu gwahanol

Ar ôl y cwrs hwn gallech symud ymlaen i Ddyfarniad neu Dystysgrif CACHE Lefel 3 mewn Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, mae CACHE yn argymell y dylai fod gennych 5 TGAU gradd c neu gymhwyster cyfatebol er mwyn ymdopi â gofynion y cymhwyster neu gymhwyster galwedigaethol gofal lefel 1.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi gael gwiriad DBS.